Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Croeso i'r tudalennau hyn a fydd yn eich arwain drwy'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'r safonau'n rhan o ystod o safonau ar gyfer athrawon, arweinwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Fe'u cynlluniwyd i'ch cefnogi i fod y gorau y gallwch ac maent yn adlewyrchu arferion sy'n gyson â gwireddu'r cwricwlwm newydd.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

Gwneud y defnydd gorau o'r PDF rhyngweithiol hwn

Model newydd ar gyfer safonau proffesiynol

Pwy fydd yn eu defnyddio a phryd?

Sut ddylai'r safonau gael eu defnyddio?

Gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin

**Y safonau**

Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Disgrifyddion addysgu

Disgrifyddion ar gyfer rolau arweinyddol ffurfiol

# Gwneud y defnydd gorau o'r PDF rhyngweithiol hwn

Bydd angen i chi gael llygoden neu bwyntydd i glicio ar nodweddion sy'n eich galluogi i ddewis sut i lywio drwy'r tudalennau.

Bwriedir i'r adran safonau fod yn rhyngweithiol - cliciwch ar deitlau a symbolau yn y prif dudalennau i bori drwy'r safonau yn eich ffordd eich hun.

Bydd clicio ar bob un o'r 5 safon yn mynd â chi at ddadansoddiad o elfennau o fewn pob safon.

Bydd clicio ar benawdau'r elfen yn mynd â chi at y disgrifyddion ar gyfer yr elfen honno.

Mae tudalennau â **thab melyn** yn ymwneud â'r disgrifyddion addysgu. ADDYSGU

Mae tudalennau â **thab coch** yn ymwneud â disgrifyddion ar gyfer rolau arweinyddol ffurfiol. ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

Bydd clicio ar eiconau ar gornel dde gwaelod y tudalennau'n gadael i chi ddychwelyd at dudalennau cynharach, neu lywio rhwng pob un o'r pum safon.

Ceir eicon ar dudalennau'r disgrifyddion fydd yn mynd â chi'n ôl at y dadansoddiad o elfennau'r safon honno, a bydd yno ddolenni i'ch galluogi i symud rhwng y disgrifyddion addysgu a'r disgrifyddion ar gyfer rolau arweinyddol ffurfiol neu at dudalen 'Beth mae'r 5 safon yn ei ddweud?'.

Bydd yr eicon hafan yn mynd â chi'n ôl i'r dudalen cynnwys.

# Model newydd ar gyfer safonau proffesiynol

Wedi cyd-weithio'n helaeth gydag athrawon ledled Cymru, mae gennym bum safon newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gyda set o werthoedd ac ymagweddau cyffredin a ddylai ysgogi pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro – addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol. Bydd y rhain yn sylfaen i ddatblygiad y proffesiwn addysgu wrth iddo arwain ar drawsnewid ein system addysg yng Nghymru. Datblygwyd y safonau newydd gyda'r proffesiwn, ar gyfer y proffesiwn, ac i fod yn berthnasol i waith dyddiol pob athro.

Rhennir pob safon yn elfennau â disgrifyddion sy'n dangos enghreifftiau o sut y gall y safonau fod yn berthnasol i waith athro, yn ddibynnol ar ble mae'r athro hwnnw o ran ei rôl a gyrfa.

Mae'r is **ddisgrifyddion addysgu** yn disgrifio'r disgwyliadau y dylid eu bodloni ar gyfer sicrhau **dyfarniad Statws Athro Cymwysedig** a **chwblhau'r cyfnod ymsefydlu statudol** yn llwyddiannus.

Mae'r uwch ddisgrifyddion yn dangos enghreifftiau o **arferion effeithiol iawn a pharhaus** ac yn ffocws ar gyfer **dysgu proffesiynol gydol gyrfa**.

Mae'r is **ddisgrifyddion ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol** yn dangos y disgwyliadau ar gyfer rôl arweinyddol ffurfiol gyda'r uwch ddisgrifyddion yn dangos enghreifftiau o **arferion effeithiol iawn mewn rôl arweinyddol ffurfiol**.

# Pwy fydd yn eu defnyddio a phryd?

Os ydych yn athro newydd gymhwyso ac yn dechrau ar gyfnod ymsefydlu ar 1 Medi 2017 neu ar ôl hynny, byddwch yn defnyddio'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'u disgrifyddion i gwblhau eich cyfnod ymsefydlu. Os ydych yn athro newydd gymhwyso ac wedi dechrau eich cyfnod ymsefydlu cyn y dyddiad hwn, byddwch yn parhau â'ch cyfnod ymsefydlu gan ddefnyddio'r **Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (SAG)** (h.y. y safonau y dechreuoch chi eich cyfnod ymsefydlu gyda nhw). Gallwch weld y canllawiau ymsefydlu llawn **yma**

Os ydych chi'n athro neu'n arweinydd ysgol, gallwch symud i'r safonau addysgu a/neu'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol yn ystod 2017/18. Bydd pob athro ac arweinydd ffurfiol yn defnyddio'r safonau newydd erbyn 1 Medi 2018.

# Sut ddylai'r safonau gael eu defnyddio?

Mae'n ofynnol i athrawon newydd gymhwyso ddangos tystiolaeth eu bod yn gallu bodloni'r holl is ddisgrifyddion (lefel ymsefydlu) addysgu o fewn y pum safon er mwyn cwblhau eu cyfnod ymsefydlu.

Rhaid i athrawon ac arweinwyr barhau i fodloni pob un o'r pum safon wrth gyflawni eu gwaith. O dan bob un o'r pum safon ceir nifer o elfennau a gefnogir gan amrywiaeth o ddisgrifyddion.

Diben y rhain yw galluogi ymarferwyr i'w harchwilio mewn modd datblygol - nid fel rhestr wirio - drwy ddangos arfer da effeithiol iawn a pharhaus a chynnig ffocws ar gyfer dysgu gydol gyrfa.

Bydd athrawon newydd gymhwyso, athrawon ac arweinwyr ffurfiol yn gallu defnyddio Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) Cyngor y Gweithlu Addysg i fyfyrio ar eu profiadau proffesiynol a'u mapio i'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae hyn yn orfodol i athrawon newydd gymhwyso fel tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r holl ddisgrifyddion perthnasol.

I'ch helpu chi i archwilio'r safonau proffesiynol newydd, edrychwch ar yr **animeiddiad** hwn neu gallwch ddechrau archwilio'r safonau ar y dudalen nesaf.

# Gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin

Ysgogi pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr i arddangos safonau proffesiynol uchel yn eu hymarfer.



# Gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin

## Gwerthoedd ac ymagweddau

### Hawl broffesiynol

Mae gan yr athro hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy'n ystyried ei hun yn sefydliad dysgu. Mae gan yr athro yr ymreolaeth i gyfrannu at y proffesiwn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac mae ganddo'r hawl i ddechrau a chefnogi gwelliannau i'r ysgol er budd dysgwyr.

### Iaith a diwylliant Cymru

Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson ei bod yn hollbwysig hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

### Hawliau dysgwyr

Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn ymagwedd yr athro at ei swydd. Mae gan yr athro ddisgwyliadau uchel ac ymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni.

### Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hollbwysig. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.


### Dysgwr proffesiynol

Mae'r athro yn ddysgwr proffesiynol ac yn ymrwymo i ddatblygu, cydweithredu ac arloesi'n barhaus drwy gydol ei yrfa.


### Rôl yn y system

Mae'r athro yn ymrwymedig i ddysgwyr ym mhob man ac mae'n chwarae rhan ddylanwadol wrth ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.

# Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth



# Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth





…mae’n hollbwysig


# Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth



...galluogi lledaenu




# Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth




...mynd yn ddyfnach


# Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth






...symud ymlaen

# Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth







...helpu i dyfu

# Y pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Gweithio fel un... i sicrhau addysgeg effeithiol gyda gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin.














# Beth mae'r 5 safon proffesiynol yn eu dweud?

### Y safon **Addysgeg** effeithiol… mae addysgu a dysgu'n hollbwysig

Mae'r athro yn sicrhau'n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu'n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn atebol am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr a sicrhau'r gorau ar eu cyfer o ran safonau, lles a chynnydd.

### Y safon **Cydweithredu**… gan sicrhau y caiff addysgeg effeithiol ei lledaenu

Mae'r athro yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio mewn ffordd gynhyrchiol â'r holl bartneriaid ym maes dysgu er mwyn cynyddu effeithiolrwydd proffesiynol.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn creu amodau sy'n sicrhau bod pawb yn fodlon helpu ei gilydd a chydweithio'n effeithiol o fewn a thu hwnt i'r ysgol i ledaenu addysgeg effeithiol.



### Y safon **Arweinyddiaeth**… helpu i gynyddu addysgeg effeithiol

Mae'r athro yn arwain ym mhob maes ymarfer proffesiynol er mwyn cefnogi ymdrechion pobl eraill yn yr ysgol a thu allan iddi i wireddu uchelgais addysgol Cymru.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn gweithio mewn ffordd ddeallus i sicrhau cysondeb, eglurder ac ymrwymiad a rennir i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysgeg, dysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach.

### Y safon **Arloesi**… datblygu addysgeg

Mae'r athro yn flaengar gan ddatblygu technegau a dulliau a reolir ac a fesurir i wella deilliannau addysgeg.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn sicrhau amodau cadarnhaol ar gyfer arloesi cydlynol y gellir ei reoli, a deilliannau sy'n cael eu gwerthuso, eu dosbarthu a'u rhoi ar waith.

### Y safon Dysgu **Proffesiynol**… datblygu addysgeg ymhellach

Mae'r athro yn cynyddu ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth yn gyson a gall ddangos sut mae myfyrio a bod yn barod i gael ei herio a'i gefnogi yn gallu cyfrannu at ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu addysgeg yn raddol.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn ysgogi dyhead am ddysgu proffesiynol sy'n cael ei werthfawrogi, sy'n cael effaith ar addysgeg ac sy'n cynnal datblygiad proffesiynol ar draws cymuned sy'n dysgu, yn yr ysgol a thu hwnt iddi.

DISGRIFYDDION ADDYSGU
ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Darganfyddwch yr hyn y mae'r disgrifyddion yn ei ddweud am sgôp pob safon


Cliciwch yma i archwilio'r disgrifyddion ar gyfer ADDYSGU

Cliciwch yma i archwilio'r disgrifyddion ar gyfer ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Disgwyliadau ar gyfer addysgu proffesiynol

ADDYSGU

Mynediad i'r proffesiwn – SAC a chyfnod ymsefydlu













Y PUM SAFON

ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Disgwyliadau ar gyfer addysgu proffesiynol



Cliciwch ar segment i archwilio'r safonau ar gyfer addysgu.





Y PUM SAFON
ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Disgrifyddion addysgu

# Addysgeg

Mae'r athro yn sicrhau'n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu'n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu.

## Dadbacio addysgeg... cydweddu â 'Dyfodol Llwyddiannus'



# Addysgeg

## Mireinio addysgu… tuag at arferion effeithiol iawn a pharhaus

Mae’r athro yn sicrhau’n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu’n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu.

**Cliciwch ar benawdau’r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**


Rheoli’r amgylchedd dysgu

Asesu

Gwahaniaethu

Cofnodi ac adrodd

Cynnwys partneriaid mewn dysgu




Y PUM SAFON

ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Rheoli'r amgylchedd dysgu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae dysgwyr yn mynegi'r ffordd y mae eu sgiliau trefnu eu hunain yn datblygu i ddangos eu bod yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae gwaith trefnu dysgwyr a chydweithwyr, arferion ac adnoddau yn canolbwyntio ar feithrin arferion ac ymddygiad dysgu sy'n bodloni'r pedwar diben ac sy'n cael eu deall gan ddysgwyr yn y cyd-destun hwnnw.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n deall pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y gwaith o hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r pedwar diben ac y mae dysgwyr yn eu deall yn y cyd-destun hwnnw. Mae felly'n mynd ati i'w ymsefydlu a'i reoli'n effeithiol ac yn barhaus.

PDP

# Addysgeg

## Mireinio addysgu… tuag at arferion effeithiol iawn a pharhaus

## Asesu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Defnyddir technegau asesu arbenigol ar gyfer dysgwyr a nodwyd a cheir ymrwymiad i weithio gyda chydweithwyr ac asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion a nodwyd yn y ffordd orau.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi anghenion dysgu pob dysgwr.

**Disgrifydd SAC:**
Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu.

PDP

## Mireinio addysgu... tuag at arferion effeithiol iawn a pharhaus

# Gwahaniaethu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae gwahaniaethu yn soffistigedig iawn, i'r graddau lle mae'r dysgwyr yn cydnabod pam mae angen iddynt gael eu hymestyn neu eu cynorthwyo ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio profiad dysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae deunyddiau a phrofiadau dysgu'n cael eu defnyddio i ddarparu her briodol i bob dysgwr.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gwahanol anghenion.

## Mireinio addysgu... tuag at arferion effeithiol iawn a pharhaus

# Cofnodi ac adrodd

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae gwaith dadansoddi data a thystiolaeth yn ei gwneud yn bosibl i feithrin dealltwriaeth a gwneud penderfyniadau am ddarpariaeth. Mae cofnodion ac adroddiadau'n galluogi grwpiau diddordeb eraill i nodi materion yn effeithlon a gweithredu yn unol â hynny.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae cofnodion ac adroddiadau'n disgrifio'n gywir y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr, yn nodi anghenion dysgu allweddol ac yn amlinellu camau nesaf pwysig.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n cynhyrchu cofnodion ac adroddiadau priodol, amserol a chywir ac mae'n rhoi adborth i helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r dysgu, a gwella'r profiad dysgu.

PDP

# Cynnwys partneriaid mewn dysgu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Rhoddir cymorth cadarn i rieni a gofalwyr helpu eu plant i ddatblygu o ran y pedwar diben. Mae cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hannog i gefnogi'r pedwar diben ac, yn enwedig, yr ymgyrch i feithrin profiad dilys fel rhan naturiol o ddysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Gwneir ymdrech barhaus i gynnwys rhieni, gofalwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill mewn datblygu dysgwyr o ran pedwar diben y cwricwlwm.

**Disgrifydd SAC:**
Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.

# Addysgeg

## Hyrwyddo dysgu… drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

Mae'r athro yn sicrhau'n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu'n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu.

**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Pedwar diben i ddysgwyr


Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu

Profiadau dysgu cyfunol

Cyd-destunau bywyd go iawn, dilys

Dilyniant mewn dysgu

Themâu trawsgwricwlaidd




Y PUM SAFON
ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Addysgeg

## Hyrwyddo dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

## Pedwar diben i ddysgwyr

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae'r ffordd y mae'r pedwar diben wedi'u hymgorffori, eu datblygu a'u hymestyn wedi'i mynegi'n glir, gydag effaith addysgeg ar ddeilliannau dysgu wedi'i mynegi i gydweithwyr.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Ceir enghreifftiau clir o ymdrechion parhaus i ymgorffori'r pedwar diben i ddysgwyr.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gyrru profiadau dysgwyr.

PDP

# Addysgeg

## Hyrwyddo dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

## Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae gwaith dysgu wedi'i gynllunio yn gwneud defnydd o'r dull gweithredu disgybledig tuag at gynnwys pwnc gyda cymwysiadau bywyd go iawn ar draws y pedwar diben.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae dysgwyr yn cael eu hannog i nodi a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng disgyblaethau'r pynciau y maent yn eu profi o fewn y meysydd dysgu.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn, ac ar draws, cynnwys pynciau, meysydd dysgu, a themâu trawsgwricwlaidd; mae hefyd yn arddangos dealltwriaeth o hyn ac yn cynllunio'n briodol yn ôl hynny.

PDP

# Addysgeg

## Hyrwyddo dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

## Profiadau dysgu cyfunol

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae repertoire eang o ddulliau addysgu yn cael eu defnyddio'n fedrus ac mae dysgwyr yn gallu dod â disgyblaeth a threfn i'w hymdrechion eu hunain wrth iddynt strwythuro gweithgaredd i ddod â'r pedwar diben yn fyw.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae cyd-destunau a dulliau addysgu yn cael eu cyfuno i ddefnyddio profiad o amgylcheddau amrywiol a phriodol i gynorthwyo ei gilydd. Mae ardaloedd dysgu fel y gweithdy, yr awyr agored, labordy, stiwdio, campfa, llyfrgell, theatr a'r ystafell ddosbarth yn lleoliadau integredig ar gyfer dysgu sy'n dangos disgyblaeth a strwythur pwnc sy'n addas i brofiad.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n deall sut i ddewis, defnyddio a chyfiawnhau ystod o ddulliau addysgol creadigol er budd pob dysgwr.

PDP

# Addysgeg



## Hyrwyddo dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

## Cyd-destunau bywyd go iawn, dilys

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae dysgwyr yn cychwyn ac yn ysgogi profiad dilys ac yn myfyrio arno sy'n atgyfnerthu dysgu blaenorol ac yn darparu cyd-destun ar gyfer gwaith datblygu pellach ar draws y pedwar diben.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Ceir enghreifftiau o gyd-destunau bywyd go iawn, dilys ar gyfer dysgu sy'n cael eu darparu fel rhan naturiol o'r profiad dysgu.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am ddefnyddio cyd-destunau bywyd go iawn dilys, a hynny fel rhan naturiol o'r profiad dysgu. Mae hyn yn ehangu profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol y dysgwr, ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o gysyniadau a haniaethau.

# Addysgeg



## Hyrwyddo dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

## Dilyniant mewn dysgu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Gall dysgwyr ac athrawon weld a mapio dysgu a myfyrio arno i'r graddau eu bod yn gallu mynegi camau nesaf mewn ffordd sy'n cymhwyso dysgu disgybledig ar draws y pedwar diben.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae dysgu'n cael ei gynllunio fel bod y camau nesaf yn ymestyn gallu dysgwyr yn raddol ac yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o sut mae dysgu'n datblygu fesul tipyn, gam wrth gam ac wrth fynd heibio gan adeiladu ar brofiadau blaenorol a'r hyn a ddysgwyd o'r blaen. Mae yna'n cynllunio ar gyfer cynnydd yn seiliedig ar hyn.

# Addysgeg



## Hyrwyddo dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

## Themâu trawsgwricwlaidd

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae themâu trawsgwricwlaidd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac mae'r amrywiaeth yn cynnwys dysgu cymhleth sy'n dod i'r amlwg drwy fyfyrio'n effeithiol ar ddysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Defnyddir themâu trawsgwricwlaidd i feithrin cysylltiadau rhwng meysydd dysgu a gall yr hyn a ddysgir o fewn pob cydran gael ei fynegi.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n gwybod am yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth ddylunio'r cwricwlwm ac arloesi, ac mae'n eu deall ac yn ymwneud â nhw. Mae hefyd yn datblygu themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu ac mae'n gallu cyfiawnhau ei benderfyniadau.

# Addysgeg

## Dylanwadu ar ddysgwyr…meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr

Mae’r athro yn sicrhau’n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu’n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu.

**Cliciwch ar benawdau’r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Herio a disgwyliadau


Gwrando ar ddysgwyr

Dysgwyr yn arwain dysgu

Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr

Myfyrio ar ddysgu

Deilliannau dysgu a lles




Y PUM SAFON

ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

## Dylanwadu ar ddysgwyr… meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr

# Herio a disgwyliadau

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae dysgwyr yn mwynhau'r cyfle i ymestyn eu hunain a manteisio ar sgiliau blaenorol wrth geisio datblygu sgiliau newydd.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn cyfathrebu lefelau priodol o her a disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu hadlewyrchu yn ansawdd eu gwaith dysgu a'u cyflawniad.

**Disgrifydd SAC:**
Er mwyn ysgogi'r dysgwyr i gyflawni, mae'r heriau a'r disgwyliadau y mae'r athro'n eu gosod ar lefel briodol ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith y dysgwyr.

## Dylanwadu ar ddysgwyr… meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr

# Gwrando ar ddysgwyr

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae prosesau ar waith sy'n disgwyl i ddysgwyr gynnig eu barn er mwyn llywio pob cam o'r broses ddysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Gofynnir am safbwyntiau dysgwyr, cânt eu deall a gweithredir arnynt.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos parodrwydd i geisio a gwrando ar farn dysgwyr, ac ystyried y farn honno,  er mwyn eu cynnwys a'u hannog i gymryd rhan weithredol a llawn yn eu dysgu eu hunain.

# Addysgeg

## Dylanwadu ar ddysgwyr... meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr

## Dysgwyr yn arwain dysgu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol wrth reoli eu hagenda ddysgu eu hunain gyda gweithgarwch a gaiff ei ddechrau a'i benderfynu ganddynt hwy eu hunain a fydd yn eu helpu i bennu eu disgwyliadau uchel eu hunain.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Caiff dysgwyr eu hannog i awgrymu ffyrdd y gellir datblygu, dehongli neu ymestyn dysgu ymhellach.

**Disgrifydd SAC:**
Wrth gynllunio a chyflawni, mae'r athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i fyfyrio am eu dysgu eu hunain.

# Addysgeg



## Dylanwadu ar ddysgwyr… meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr

## Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae'r athro yn sicrhau bod dysgwyr yn myfyrio ar y graddau y maent wedi ymestyn eu hunain a bod yn wydn wrth ddatrys problemau a heriau yn eu dysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn annog dysgwyr i gymhwyso eu hunain gydag ymdrech barhaus am eu bod yn gweld diben eu dysgu ac yn deall bod angen gwydnwch ar gyfer llwyddiant parhaus.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n hyrwyddo hunanysgogi a hunangyfeirio ymhlith dysgwyr, ac yn eu cefnogi i weithredu hynny wrth ddysgu.

**Dylanwadu ar ddysgwyr… meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr**

# Myfyrio ar ddysgu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae gwaith gwerthuso dysgu yn ystyried pob agwedd; cynnyrch, ansawdd, datblygiad dysgu, ac i ba raddau yr eir i'r afael â'r pedwar diben wrth fyfyrio ar y dysgu a ddangosir. Yn deillio o hyn ceir ffocws naturiol ar yr ymddygiad sydd ei angen yn y dyfodol i ymestyn fel dysgwr.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae gwaith myfyrio gyda dysgwyr yn cael ei gynllunio gan yr athro fel rhan naturiol o'r profiad dysgu ac mae'n arwain dysgwyr i ystyried eu hymddygiad a'u hagwedd.

**Disgrifydd SAC:**
Wrth gynllunio, mae'r athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i fyfyrio am ymddygiadau dysgu a rhagolygon dysgu a'u gwerthuso.

PDP

## Dylanwadu ar ddysgwyr… meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr

# Deilliannau dysgu a lles

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae dysgwyr yn cael eu galluogi i ddeall sut mae eu ffocws ar les personol a'u hysgogiad ar gyfer deilliant, cyfrwng ac ansawdd priodol yn cael effaith o ran defnyddioldeb at y diben a'r gynulleidfa.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn gweithio i sicrhau bod dysgwyr yn gwerthfawrogi sut mae deilliannau cynnyrch a pherfformiad o ansawdd uchel yn arwain at well dysgu a gwell arferion lles.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n codi ymwybyddiaeth o sut mae profiadau dysgu a deilliannau perfformiad o safon uchel yn arwain at well dysgu a gwell synnwyr o les.

# Cydweithredu

Mae’r athro yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio mewn ffordd gynhyrchiol â’r holl bartneriaid ym maes dysgu er mwyn cynyddu effeithiolrwydd proffesiynol.

**Cliciwch ar benawdau’r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Ceisio cyngor a chymorth

Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol

Cefnogi a datblygu eraill

Galluogi gwelliannau



Y PUM SAFON

ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Ceisio cyngor a chymorth

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae dulliau newydd arfaethedig yn cael eu mynegi'n glir i gydweithwyr ar bob lefel i ennyn cyngor beirniadol a chymorth.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae mynd ati'n weithredol i geisio cymorth gan gydweithwyr wrth ateb her newydd yn rhan naturiol o addysgu.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n mynd ati i geisio ac ymwneud â chefnogaeth o ystod ffynonnellau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys arsylwi a dysgu fel tîm, ac arddangos mwy a mwy o annibyniaeth.

PDP

# Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae'r athro yn mynd ati i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cydweithredol i staff mewn agweddau cyffredin ar drefnu dysgu ac mewn dulliau arloesol.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr eraill i feithrin arbenigedd er budd dysgwyr ac yn ceisio cyfleoedd i gryfhau cydweithredu.

**Disgrifydd SAC:**
Mae gweithio'n drefnus ac yn adeiladol gydag ystod o gydweithwyr i wella profiad dysgwyr yn nodwedd gyson o waith yr athro. Myfyrir ar ddatblygu arbenigedd, a hynny wedi'i strwythuro ac yn broses bersonol neu gydweithredol, fel sy'n briodol.

# Cefnogi a datblygu eraill

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae lefelau uchel o arferion proffesiynol parhaus yn ymgorffori cefnogaeth ar gyfer sgiliau a rhinweddau sy'n dod i'r amlwg mewn eraill ac sydd o fudd i ddysgwyr drwy gyfraniadau gweithredol, pwrpasol a strwythuredig i ddatblygu athrawon a staff eraill.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn helpu eraill i ddatblygu fel rhan naturiol o'i rôl, gan gynnwys cyfrannu at fentrau ysgol gyfan a chymryd rhan mewn rhaglenni sy'n ymestyn arbenigedd ac sy'n effeithio ar ddeilliannau dysgu.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n datblygu cydberthnasau o safon uchel gyda chydweithwyr er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr yn yr ysgol.

# Cydweithredu

ADDYSGU

## Galluogi gwelliannau

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae meysydd o bryder yn cael eu nodi'n gywir a'u harchwilio yn eich arfer eich hun ac arfer eraill. Ceir parodrwydd i geisio a chynnig cymorth a bydd cynllun yn cael ei weithredu i sicrhau gwell perfformiad.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae cyngor yn cael ei geisio a'i gymryd ar ffyrdd o wella perfformiad a chyflawni gwell deilliannau i ddysgwyr.

**Disgrifydd SAC:**
Mae enghreifftiau o welliannau o ran deilliannau i ddysgwyr ar ôl i'r athro geisio cyngor, a'i ddilyn.

PDP

# Dysgu proffesiynol

Mae’r athro yn cynyddu ei wybodaeth, ei sgiliau a’i ddealltwriaeth yn gyson a gall ddangos sut mae myfyrio a bod yn barod i gael ei herio a’i gefnogi yn gallu cyfrannu at ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu addysgeg yn raddol.

**Cliciwch ar benawdau’r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil

Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol

Dysgu proffesiynol parhaus

Sgiliau Cymraeg



Y PUM SAFON

ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

# Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Ceir ymgysylltu strwythuredig mewn cymuned ymchwil weithredu a thystiolaeth o arfer sy'n cael ei llywio gan waith darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro'n gwneud penderfyniadau addysgeg rhesymegol yn seiliedig ar waith darllen a chanfyddiadau ymchwil perthnasol.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.

PDP

# Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae'r athro'n cymryd rôl weithredol yn y gymuned addysg ehangach gyda chyfraniadau at gyfnodolion, cynadleddau neu gymunedau dysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn gwneud ymdrech i gael budd o rwydwaith neu gymuned broffesiynol ranbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol, sy'n canolbwyntio ar bwnc, proses neu gyfnod oedran priodol.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro, ar sail gwybodaeth, yn deall cyfraniad gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil gweithredol ar raddfa fechan at ddatblygiad arferion.

## Dysgu proffesiynol parhaus

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae dysgu proffesiynol parhaus yn cael ei ysgogi gan yr athro sy'n llunio twf proffesiynol yn ofalus o fewn cyd-destun y pedwar diben ac ymrwymiad i arwain datblygiad cydweithwyr y tu mewn i'r ysgol a'r tu hwnt iddi.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Defnyddir y Pasbort Dysgu Proffesiynol i gynorthwyo arfer myfyriol a chofnodi ymrwymiad pendant i ddysgu proffesiynol parhaus, gan arwain at roi technegau a dulliau newydd neu ddiwygiedig ar waith mewn ffordd reoledig.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn dylanwadu ar fyfyrio beirniadol a dysgu parhaus yr athro ac mae'n hybu datblygu a thwf proffesiynol.

# Dysgu proffesiynol



## Sgiliau Cymraeg

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae'r athro'n gweithredu i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio ei ddealltwriaeth a'i sgiliau Cymraeg, ac i ehangu'r ddealltwriaeth honno a'r sgiliau hynny.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Ceir ymrwymiad personol i ddatblygu sgiliau gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.

**Disgrifydd SAC:**
Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.

PDP

# Arloesi

Mae’r athro yn flaengar gan ddatblygu technegau a dulliau a reolir ac a fesurir i wella deilliannau addysgeg.

**Cliciwch ar benawdau’r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

## Cynnig arbenigedd

## Datblygu technegau newydd

## Gwerthuso effaith newid mewn arfer



# Cynnig arbenigedd

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Defnyddir arbenigedd a phrofiad drwy gyfrannu sgiliau proffesiynol i helpu cydweithwyr eraill i fynd i'r afael â heriau newydd.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae arbenigedd a chymorth yr athro sy'n dod i'r amlwg ar gael i gydweithwyr sy'n rhoi cynnig ar rywbeth newydd yn eu repertoire o dechnegau addysgu.

**Disgrifydd SAC:**
Mae gan yr athro stoc gynyddol o dechnegau dysgu, wrth i arbenigedd gael ei ddatblygu a dechrau ffynnu, er mwyn helpu a gwella datblygiad eraill.

# Datblygu technegau newydd

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Defnyddir technegau disgybledig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ateb heriau'n effeithiol a datblygu dysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Ceir parodrwydd i ddatblygu a chymhwyso technegau newydd i weddu i ddibenion dysgu a fwriedir mewn dull strwythuredig ac ystyriol a dysgu o'r profiad.

**Disgrifydd SAC:**
Ymchwil ar ddatblygiad dirnadol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgeg. Mae'r athro'n gallu arddangos sut y mae'n defnyddio dirnadaeth broffesiynol a dadansoddiad beirniadol i lunio a datblygu arferion.

# Gwerthuso effaith newid mewn arfer

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Caiff tystiolaeth sy’n deillio o arferion arloesol ei chasglu a’i rhannu ag eraill, yng nghymuned yr ysgol a thu hwnt, i gyfrannu at ddealltwriaeth gynyddol a datblygiadau cysylltiedig eraill mewn mannau eraill.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae’r athro yn disgwyl i unrhyw gamau newydd a gymerir gael eu cefnogi, eu dadansoddi a’u datblygu gyda chyfranogiad gan gymheiriaid a chydweithwyr mwy profiadol.

**Disgrifydd SAC:**
Mae’r athro’n gweithredu i gael cymorth a chyngor gan gydweithwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio yn yr ystafell ddosbarth fel bod modd gwerthuso a dadansoddi y ffyrdd hyn o weithio, a’u rhannu ag eraill.

PDP

# Arweinyddiaeth

ADDYSGU

Mae'r athro yn arwain ym mhob maes ymarfer proffesiynol er mwyn cefnogi ymdrechion pobl eraill yn yr ysgol a thu allan iddi i wireddu uchelgeisiau addysgol Cymru.

**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Cymryd cyfrifoldeb personol

Arfer cyfrifoldeb corfforaethol

Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni

Cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol



# Cymryd cyfrifoldeb personol

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae cyfrifoldeb proffesiynol personol yn cynnwys datblygu arferion effeithiol iawn a pharhaus ar draws y safonau proffesiynol.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn derbyn cyfrifoldeb ac yn dangos yr ymrwymiad i ddysgwyr drwy drefniadaeth a rheolaeth broffesiynol.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.

PDP

# Arfer cyfrifoldeb corfforaethol

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae cydweithwyr yn cael eu cynorthwyo i fodloni'r polisïau a'r egwyddorion sy'n ofynnol gan yr ysgol gydag awgrymiadau ar gyfer gwelliannau'n cael eu cynnig a'u rhoi ar waith.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro'n cyfrannu at nodau a datblygiad yr ysgol drwy ddangos cydymffurfiaeth gyson â pholisïau y cytunwyd arnynt ac mae'n barod i geisio cyngor lle y bo angen.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deall.

PDP

# Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinyddiaeth yn rhan annatod o addysgu sy'n cynnwys y cymorth, yr arweiniad a'r her sy'n angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau gofynnol. Mae'n ystyried profiad cydweithwyr eraill ac yn eu hannog i ffynnu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro'n defnyddio rhinweddau ei arfer proffesiynol personol ei hun i ddylanwadu'n gadarnhaol ar arfer eraill.

**Disgrifydd SAC:**
Drwy brofiadau cydweithredol mewn ysgolion a chyd-destunau eraill, mae'r athro'n arddangos ei ddealltwriaeth o sut y dylid arwain dysgu, a'i ymrwymiad i wneud hynny.

PDP

# Cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Gwneir cyfraniadau craff a chadarnhaol lle y bo'n ofynnol i gynorthwyo gwaith yr ysgol lle bynnag y mae ei angen gan ddefnyddio arbenigedd a phrofiad i gyflawni nodau'r ysgol.


**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae'r athro yn cynorthwyo gwaith y cyfnod neu'r adran ac yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o brosesau a sgiliau dan sylw.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn, ac ar draws timau ac o gyfraniadau unigolion tuag at ethos yr ysgol a gwireddu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus.

# Disgrifyddion ar gyfer rolau arweinyddol ffurfiol

# Disgwyliadau ar gyfer arferion arweinyddol ffurfiol

ROLAU ARWEINYDDOL FFURFIOL





Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

# Disgwyliadau ar gyfer arferion arweinyddol ffurfiol

Cliciwch ar segment i archwilio'r safonau ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol.




# Addysgeg



Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn atebol am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr a sicrhau'r gorau ar eu cyfer o ran safonau, lles a chynnydd.

## Arwain addysgeg




Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

# Addysgeg



## Mireinio addysgu… o weledigaeth i ddarpariaeth i effaith

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn atebol am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr a sicrhau'r gorau ar eu cyfer o ran safonau, lles a chynnydd.

**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Hyrwyddo'r weledigaeth addysgol ar gyfer 2025


Cynnal addysgu effeithiol iawn

Sicrhau bod y strategaeth a'r seilwaith yn addas at y diben

Creu amgylchedd dysgu effeithiol a chynhwysol

Hyrwyddo dulliau addysgol

Gwrando ar ddysgwyr




Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

**Mireinio addysgu… o weledigaeth i ddarpariaeth i effaith**

# Hyrwyddo'r weledigaeth addysgol ar gyfer 2025

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae athrawon ac arweinwyr y dyfodol yn cael y dechrau gorau posibl am fod arweinwyr yn helpu i sicrhau bod diwygiadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon yn llwyddiannus yn lleol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn datblygu strategaethau, strwythurau a systemau i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol i gyflawni ei gweledigaeth.

PDP

# Addysgeg

## Mireinio addysgu... o weledigaeth i ddarpariaeth i effaith

## Cynnal addysgu effeithiol iawn

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae meithrin brwdfrydedd pob aelod o staff i fod yn chwilfrydig ynghylch dysgu yn ddyletswydd arweinyddol allweddol fel y gellir annog pawb i wella'u hunain er budd y dysgwyr.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg effeithiol iawn ym mhob cyd-destun.

# Addysgeg



**Mireinio addysgu… o weledigaeth i ddarpariaeth i effaith**

## Sicrhau bod y strategaeth a’r seilwaith yn addas at y diben

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Caiff y strategaeth ei rhannu, ei herio a’i mynegi ar bob lefel er mwyn cysoni trefniadau seilwaith â dibenion a deilliannau.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arferion a dulliau rheoli tymor hwy yr ysgol yn adlewyrchu’r weledigaeth strategol barhaus. Caiff unrhyw wrthdaro rhwng y drefn ddyddiol a’r weledigaeth ei drin.

# Creu amgylchedd dysgu effeithiol a chynhwysol

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Caiff elfennau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol yr amgylchedd dysgu eu defnyddio'n effeithiol i adlewyrchu a galluogi gweledigaeth y pedwar diben. Mae arweinwyr yn disgwyl i ddysgwyr fod â rôl bwysig wrth reoli'r amgylchedd a dylanwadu arno ac yn cydnabod y dibenion soffistigedig sy'n rhan o'r drefniadaeth.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae'r amgylchedd dysgu wedi'i drefnu'n bwrpasol ac yn ei gwneud yn bosibl i gyflawni'r pedwar diben dysgu. Mae arweinwyr yn creu ac yn cynnal ethos sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

PDP

## Mireinio addysgu... o weledigaeth i ddarpariaeth i effaith

# Hyrwyddo dulliau addysgol

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Caiff ystod o ddulliau addysgol o amrywiaeth o ffynonellau eu hystyried yn rheolaidd o ran y posibilrwydd o'u rhoi ar waith yn effeithiol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod uchelgeisiau a datblygiadau parhaus i'r cwricwlwm yng Nghymru yn ategu ac yn ysgogi'r agenda ar gyfer ansawdd addysgu yn yr ysgol.

PDP

# Addysgeg

## Mireinio addysgu... o weledigaeth i ddarpariaeth i effaith

## Gwrando ar ddysgwyr

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Caiff ethos ei ymsefydlu ar draws yr ysgol sy'n disgwyl i ddysgwyr roi eu safbwyntiau er mwyn llywio pob cyfnod dysgu a chaiff y safbwyntiau hyn eu cymryd o ddifrif, eu hystyried a'u rhoi ar waith pan fo hynny'n ymarferol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Caiff safbwyntiau dysgwyr eu defnyddio i roi cipolwg ar effeithiolrwydd adrannau, cyfnodau neu'r ysgol.

# Addysgeg

## Hyrwyddo dysgu… rhoi polisi ar waith

Mae’r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn atebol am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu’r pedwar diben ar gyfer dysgwyr a sicrhau’r gorau ar eu cyfer o ran safonau, lles a chynnydd.

**Cliciwch ar benawdau’r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**


Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru

Sicrhau’r pedwar diben i ddysgwyr

Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu

Gosod cyd-destunau bywyd go iawn, dilys

Defnyddio themâu trawsgwricwlaidd




Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

## Hyrwyddo dysgu… rhoi polisi ar waith

# Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn ceisio ac yn manteisio ar bob cyfle i werthfawrogi a hyrwyddo diwylliant Cymru a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn gosod esiampl i ddysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned drwy ymrwymiad cadarnhaol i fwynhau dysgu Cymraeg.

PDP

## Hyrwyddo dysgu… rhoi polisi ar waith

# Sicrhau'r pedwar diben i ddysgwyr

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Caiff y pedwar diben eu hymgorffori, eu datblygu a'u hymestyn drwy'r ysgol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod y pedwar diben dysgu yn cael sylw cyson wrth gynllunio ac yn ymarferol.

PDP

# Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn gyson yn annog ac yn hyrwyddo dealltwriaeth ddofn o ddull disgybledig tuag at gynnwys pwnc o fewn y pedwar diben ac ar draws y meysydd dysgu.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu'r pedwar diben dysgu drwy roi cymorth cynllunio a phwysleisio disgyblaethau gwahanol bynciau mewn cyd-destun er mwyn hyrwyddo addysgu effeithiol iawn.

PDP

## Hyrwyddo dysgu... rhoi polisi ar waith

# Gosod cyd-destunau bywyd go iawn, dilys

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr effeithiol yn disgwyl ac yn galluogi dysgwyr i ddechrau, llywio a myfyrio ar brofiadau bywyd go iawn, dilys ymhob un o'r pedwar diben.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn helpu cydweithwyr i strwythuro profiadau bywyd go iawn dilys o fewn ac ar draws ffiniau pynciau.

# Defnyddio themâu trawsgwricwlaidd

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn gwneud cynlluniau i sicrhau bod themâu trawsgwricwlaidd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Mae'r amrywiaeth o themâu'n cynnwys dysgu cymhleth sy'n dod i'r amlwg drwy fyfyrio'n effeithiol ar ddysgu.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn helpu cydweithwyr i feithrin cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu er mwyn datblygu profiadau cydlynol i ddysgwyr.

PDP

# Addysgeg

ROLAU ARWEINYDDOL FFURFIOL

## Dylanwadu ar ddysgwyr… sicrhau safonau, lles a chynnydd

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn atebol am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr a sicrhau'r gorau ar eu cyfer o ran safonau, lles a chynnydd.


**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**


Derbyn atebolrwydd am ddeilliannau a lles dysgwyr


Sicrhau a gwarchod hawliau dysgwyr

Monitro a gwerthuso effaith

Adrodd ar effeithiolrwydd





Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

# Addysgeg

## Dylanwadu ar ddysgwyr… sicrhau safonau, lles a chynnydd

## Derbyn atebolrwydd am ddeilliannau a lles dysgwyr

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio â phob partner, yn enwedig ysgolion, cyfnodau neu adrannau eraill ac yn derbyn cyfrifoldeb proffesiynol am helpu eraill i lwyddo a'u galluogi i wneud hynny.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn hyrwyddo, yn galw ac yn sicrhau bod llwyddiant dysgu, cyflawniad a lles pob dysgwr i'w gweld drwy'r ysgol i gyd.

# Addysgeg

## Dylanwadu ar ddysgwyr... sicrhau safonau, lles a chynnydd

## Sicrhau a gwarchod hawliau dysgwyr

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae hawliau ac anghenion dysgwyr yn hollbwysig i bopeth a wna'r ysgol, gan sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar hawl i gael y profiad ysgol gorau posibl yng Nghymru.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael mynediad llawn at gyfleoedd ac yn cyflawni.

# Addysgeg

**Dylanwadu ar ddysgwyr... sicrhau safonau, lles a chynnydd**

## Monitro a gwerthuso effaith

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Addysgeg effeithiol yw calon yr ysgol a phrif ffocws yr arweinwyr.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Defnyddir systemau effeithiol yn gyson i fonitro a gwerthuso effaith yr holl brofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr, a sicrhau gwelliant parhaus.

# Addysgeg

**Dylanwadu ar ddysgwyr... sicrhau safonau, lles a chynnydd**

## Adrodd ar effeithiolrwydd

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae adrodd ar effeithiolrwydd dysgu yn broses hynod o soffistigedig gan geisio mireinio'n gyson er mwyn sicrhau deilliannau dysgu gwell. Caiff dysgwyr eu cynnwys yn llawn yn y broses.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Caiff y broses o adrodd ar gynnydd a lles dysgwyr ei rheoli'n effeithiol gyda'r ystod lawn o asiantaethau a phartneriaid cyfrifol ac allanol. Caiff argymhellion sy'n deillio o adroddiadau eu mynegi, eu rhoi ar waith a'u trin yn effeithiol.

PDP

# Cydweithredu



Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn creu amodau sy'n sicrhau bod pawb yn fodlon helpu ei gilydd a chydweithio'n effeithiol o fewn a thu hwnt i'r ysgol i ledaenu addysgeg effeithiol.

**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Ceisio cyngor a chymorth

Cynnal diwylliant o gydweithio

Gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol

Ymgysylltu â chymuned ehangaf yr ysgol

Galluogi gwelliannau parhaus



# Cydweithredu



## Ceisio cyngor a chymorth

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr hyderus yn cynrychioli pob ysgol wrth gydweithio'n gadarnhaol neu drafod â grwpiau â diddordeb er budd dysgwyr ar draws y gymuned addysg.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Caiff heriau proffesiynol yr arweinwyr a'r ysgol eu cydnabod, eu derbyn, eu hegluro a'u trin drwy gydweithio ffurfiol a strwythuredig.

# Cynnal diwylliant o gydweithio

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae ysgolion partner, adrannau ac unigolion o fewn ysgolion oll yn elwa ar amrywiaeth greadigol o gymorth hyblyg a chyson o ansawdd uchel i'w helpu i ddatblygu arfer proffesiynol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae lefelau uchel o arferion proffesiynol parhaus yn ymgorffori cymorth ar gyfer sgiliau a rhinweddau sy'n dod i'r amlwg mewn eraill ac o fudd i ddysgwyr.

# Gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn hwyluso cydweithredu pwrpasol a gwerthfawr â chyflogwyr, busnesau, llywodraeth a gweithwyr addysg proffesiynol eraill, ar agweddau cyffredin ar drefnu dysgu a dulliau gweithredu arloesol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Manteisir ar gyfleoedd i alluogi a chynorthwyo cydweithwyr i weithio gydag asiantaethau allanol er budd dysgwyr.

PDP

# Ymgysylltu â chymuned ehangaf yr ysgol

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn ymgysylltu â'r gymuned a busnesau lleol er mwyn cael effaith ar bob agwedd ar yr ysgol a'u gwella'n barhaus.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Caiff cydberthnasau effeithiol ac agored eu meithrin a'u cynnal â rhieni a gofalwyr a'r gymuned leol ehangaf sy'n rhoi rhan weithredol a chadarnhaol i bartneriaid ym mhrofiadau a chynnydd y dysgwyr.

PDP

# Cydweithredu

ROLAU ARWEINYDDOL FFURFIOL

## Galluogi gwelliannau parhaus

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfleoedd i gydweithredu ar gyfer yr holl staff, o ran agweddau cyffredin ar drefnu dysgu, a thrwy ddulliau gweithredu arloesol, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Caiff meysydd sy'n peri pryder yn eu harferion eu hunain ac arferion pobl eraill eu nodi, eu harchwilio a'u dadansoddi'n gywir. Ceir parodrwydd i geisio a chynnig cyngor ac mae arweinwyr yn llywio cynllun i sicrhau perfformiad gwell.

# Dysgu proffesiynol

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn ysgogi dyhead am ddysgu proffesiynol sy'n cael ei werthfawrogi, sy'n cael effaith ar addysgeg ac sy'n cynnal datblygiad proffesiynol ar draws cymuned sy'n dysgu, yn yr ysgol a thu hwnt iddi.

**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Darllen ehangach a safbwyntiau ymchwil

Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol

Cefnogi twf ac arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r system

Helpu eraill i dyfu

Dysgu proffesiynol parhaus i bob aelod o staff



Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

# Darllen ehangach a safbwyntiau ymchwil

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn ffynhonnell o wybodaeth a dealltwriaeth am waith darllen ac ymchwil addysgol a gall lunio cysylltiadau ar gyfer y gymuned addysgu sy'n gysylltiedig â'u cyd-destun gwaith.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn cynnal ac yn datblygu agwedd adeiladol a pherthnasol tuag at astudio ymhlith cydweithwyr.

PDP

## Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan weithgar yn y gymuned addysg ehangaf gan gynllunio cyfraniadau at gyfnodolion, cynadleddau neu gymunedau dysgu ar ran pawb yn y gymuned, yn cynnwys dysgwyr.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyfrannu at gynadleddau, cyfnodolion ac ymchwil.

# Dysgu proffesiynol

## Cefnogi twf ac arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r system

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn ceisio meithrin dealltwriaeth, ymarfer gwell a deilliannau gwell mewn pynciau, cyfnodau neu amgylcheddau dysgu eraill.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae ymrwymiad amlwg i ymgysylltu y tu hwnt i'r ysgol ac mae'r ysgol yn elwa ar y cyfleoedd sydd ar gael ac yn cyfrannu atynt, gan gynnwys yr Academi Arweinyddiaeth.

## Helpu eraill i dyfu

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn galluogi'r holl staff i gyrraedd y safon uchaf bosibl, gan gydnabod a chyflawni eu potensial ym mhob cyd-destun dysgu.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn gweithio fel modelau rôl. Caiff dysgu proffesiynol ei gysylltu a'i hwyluso ar lefel ryngwladol er mwyn ymsefydlu cymhwysedd digidol a mabwysiadu technolegau newydd. Gwneir pob ymdrech i ddysgu Cymraeg er mwyn gosod esiampl i eraill.

# Dysgu proffesiynol parhaus i bob aelod o staff

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod cydweithwyr yn teimlo'n hyderus eu bod yn cael arweiniad ar lwybrau gyrfa priodol a'u potensial i ddatblygu gan ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel enghraifft.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys nhw eu hunain, yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus a phenodol, gan gynllunio twf proffesiynol yn ofalus yng nghyd-destun y pedwar diben ac ymrwymiad i greu cyfleoedd datblygu i gydweithwyr o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi.

PDP

# Arloesi

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn sicrhau amodau cadarnhaol ar gyfer arloesi cydlynol y gellir ei reoli, a deilliannau sy'n cael eu gwerthuso, eu dosbarthu a'u rhoi ar waith.

**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Tuag at 2025

Datblygu technegau newydd

Ceisio ac ymestyn arfer gorau

Gwerthuso effaith newid mewn arfer



Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

# Arloesi

## Tuag at 2025

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn datblygu ac yn mireinio systemau'r unfed ganrif ar hugain er mwyn datblygu dysgu proffesiynol o fewn cymuned yr ysgol a'r tu allan iddi.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn rhoi sylw i'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru ac yn cydlynu arloesedd er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio dulliau arloesi rheoledig ac yn elwa arnynt.

# Datblygu technegau newydd

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn ymrwymedig i ddatblygu cynlluniau peilot a phrototeipiau mewn ffordd strwythuredig yn y lleoliadau mwyaf priodol a sicrhau llwyddiant parhaus a chyson hyd y gellid.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae rhaglen sefydliadol hirdymor o arloesedd strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith er mwyn ateb heriau, rheoli newid a datblygu dysgu'n effeithiol er mwyn gwella deilliannau.

PDP

# Ceisio ac ymestyn arfer gorau

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn mynd ati i nodi ysgolion ag arfer gwell, yn archwilio'r arfer hwnnw ac yn defnyddio dulliau gweithredu a thechnegau a fydd yn sicrhau gwelliant parhaus.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn sicrhau bod arbenigedd a phrofiad yn cael eu datblygu'n barhaus a'u rhannu o fewn ac ar draws yr ysgol a thu hwnt.

# Gwerthuso effaith newid mewn arfer

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn ymchwil reoledig berthnasol i ddysgu o arfer yn seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru a thu hwnt a chyfrannu ato.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Caiff tystiolaeth sy'n deillio o arfer arloesol ei chasglu a'i rhannu ag eraill o fewn cymuned yr ysgol a'r tu allan iddi er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth a chyfrannu at ddatblygiadau cysylltiedig mewn mannau eraill.

# Arweinyddiaeth

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn gweithio mewn ffordd ddeallus i sicrhau cysondeb, eglurder ac ymrwymiad a rennir i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysgeg, dysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach.

**Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.**

Hyrwyddo addysgu ac arweinyddiaeth yng Nghymru

Arfer cyfrifoldeb corfforaethol ym mhob cydweithiwr

Grymuso eraill

Dirprwyo a grymuso

Cefnogi lleoliadau eraill



Y PUM SAFON

DISGRIFYDDION ADDYSGU

# Hyrwyddo addysgu ac arweinyddiaeth yng Nghymru

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae optimistiaeth yn gryf a chaiff ei hategu gan yr awydd i sicrhau bod y pedwar diben yn cael eu cyflawni ar gyfer pob ysgol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn hyrwyddo addysgu yng Nghymru fel ymrwymiad proffesiynol o fri, uniondeb a pharch.

# Arfer cyfrifoldeb corfforaethol ym mhob cydweithiwr

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae cyfrifoldeb corfforaethol yn hynod ddatblygedig am fod balchder ynghylch bod ‘ar frig y proffesiwn’ yn hollbwysig i ddiwylliant y tîm neu’r ysgol. Nid yw’r feddylfryd gyffredin o sicrhau effeithlonrwydd a rheoleiddio yn amharu ar y weledigaeth; yn hytrach mae’n atgyfnerthu ei heffeithiolrwydd.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Caiff polisïau y cytunwyd arnynt, boed yn bolisïau ysgol, lleol neu genedlaethol, eu harchwilio er mwyn sicrhau y cydymffurfir â hwy yn ymarferol, a chaiff unrhyw ddiffygion eu trin a chaiff camau priodol eu cymryd. Os cynigir cymorth penodol, caiff archwiliadau pellach eu cynnal.

PDP

# Grymuso eraill

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae'r dull arwain yn creu ymdeimlad ymhlith athrawon ac eraill o sut beth yw gweithio mewn ysgol a gaiff ei harwain yn dda. Caiff agweddau ar arwain eu dangos yn glir er mwyn ysbrydoli arweinwyr y dyfodol.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn nodi ac yn hyrwyddo arfer hynod effeithiol yn seiliedig ar y pedwar diben yn yr ysgol ac ar lefel leol a chenedlaethol. Mae arweinyddiaeth i'w gweld fel rhan annatod o addysgu gan gynnwys rhoi'r esiampl, y cymorth, yr arweiniad a'r her sydd eu hangen i sicrhau'r deilliannau gofynnol. Mae arweinwyr yn ystyried profiad cydweithwyr eraill, yr heriau sy'n eu hwynebu ac maent yn eu hannog i ffynnu.

PDP

# Dirprwyo a grymuso

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn grymuso cydweithwyr i ddatblygu galluoedd pobl eraill, gan eu hannog yn systematig i fyfyrio ar eu hymarfer a thechnegau datblygu.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn dirprwyo cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn defnyddio sgiliau priodol i reoli pobl er mwyn bod yn effeithiol.

# Cefnogi lleoliadau eraill

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae arweinwyr yn datblygu rhwydweithiau effeithiol o wybodaeth, ymchwil ac arbenigedd ymarferol er mwyn galluogi ysgolion a lleoliadau eraill i elwa drwy gydweithio.

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:**
Mae arweinwyr yn ceisio cynnig eu cryfderau i helpu adrannau ac ysgolion eraill fel modelau rôl ac esiamplau. Lle bo hynny'n briodol, mae cymorth neu addysgu ar y cyd yn rhoi arweiniad pendant.

ISBN digidol 978 1 78859 507 0
Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth
© Hawlfraint y Goron 2019
WG38362